# PWYLLGOR CYSWLLT CYMUNEDOL

Hysbysiad o Benderfyniad – Cyfarfod o Bell, 30 Ionawr, 2025.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd R.M. Birch (Cadeirydd); Cynghorydd M.R. Wilson (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr A. Asbrey, C.A. Cave, W. Gilligan, S.J. Haines, S.M. Hanks, N.P. Hodges, J. Lynch-Wilson, S.D. Perkes and R.R. Thomas

Yn cynrychioli Cynghorau Tref a Chymuned: S. Hodges (Cyngor Tref y Barri), M. Wilson (Cyngor Tref y Bont-faen a Llanfleiddan) (Eilydd), M. Cuddy (Cyngor Tref Penarth), C. Hadley (Cyngor Cymuned Tregolwyn), M. Phillips (Cyngor Cymuned Dinas Powys) (Eilydd), J. Pegg (Cyngor Cymuned Ewenni) (Eilydd), Dr. M. Misra (Cyngor Cymuned Llandochau) (Eilydd), J. Shaw (Cyngor Cymuned Llandŵ), L. Green (Cyngor Cymuned Llanmaes) (Eilydd), P. Summers (Cyngor Cymuned Penllyn) (Eilydd), S.M. Toker (Cyngor Cymuned Sain Tathan), I. Perry (Cyngor Cymuned St. Nicholas a Thresimwn), N. Parry (Cyngor Cymuned Sili a Larnog), C. Hawkins (Cyngor Cymuned Y Wig).

Hefyd yn bresennol: Councillors W.A. Hennessy a Dr. I.J. Johnson.

EITEM AGENDA 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain oddi wrth y Cynghorwyr S. Campbell ac H.M. Payne a'r Cynghorwyr J. Andrew (Y Bont-faen gyda Chyngor Tref Llanfleiddan), G. Thomas a W. Norman (Cyngor Tref Llanilltud Fawr), K. Hatton (Cyngor Cymuned Dinas Powys), J. Radcliffe (Cyngor Cymuned Ewenni), S. Jefferies (Cyngor Cymuned Llandochau), M. Narusberg (Cyngor Cymuned Llanmaes), S. Howells (Cyngor Cymuned Penllyn), A. Parry (Cyngor Cymuned Llandochau), A. Cory (St. Georges a Cyngor Cymuned St. Brides Super Elai) ac N. Bosworth (Cyngor Cymuned Llanddunwyd).

EITEM AGENDA 2. COFNODION –

CYTUNWYD – Y dylid cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10fed Hydref, 2024 fel cofnod cywir, yn amodol ar nodi ymddiheuriadau hefyd gan y Cynghorydd S. Bonnar, Cyngor Cymuned Llanfair.

EITEM AGENDA 3. DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

EITEM AGENDA 4. GWASANAETH HEDDLU DE CYMRU – DIWEDDARIAD LLAFAR –

CYTUNWYD – Y dylid diolch i'r Arolygydd Childs am ei amser a'i ddiweddariad llafar.

EITEM AGENDA 5. GWASANAETH TÂN AC ACHUB DE CYMRU – DIWEDDARIAD LLAFAR –

CYTUNWYD – Y dylid diolch i'r Rheolwr Grŵp O'Keefe am ei amser a'i ddiweddariad llafar.

EITEM AGENDA 6. ENWEBU CYNRYCHIOLWYR O GYNGHORAU TREF A CHYMUNED AR GYFER Y BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS (PW) –

CYTUNWYD -

(1) Bod safle unigol Cynrychiolydd Cynghorau Tref a Chymuned ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cael ei gylchdroi bob dwy flynedd rhwng Cynghorau Tref a Chymuned.

(2) Bod y Cynrychiolydd Cynghorau Tref a Chymuned penodedig ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn rhannu agendâu cyfarfodydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus â Chlercod y Cynghorau Tref a Chymuned lle bo modd er mwyn cael sylwadau cyn cyfarfodydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

(3) Bod y Cynrychiolydd Cynghorau Tref a Chymuned penodedig ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn rhoi diweddariad llafar ar Gyfarfodydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a gynhaliwyd yn flaenorol mewn cyfarfodydd dilynol o'r Pwyllgor Cyswllt Cymunedol fel eitem safonol ar yr agenda.

(4) Penodi'r Cynghorydd Carl Hadley o Gyngor Cymuned Tregolwyn yn Gynrychiolydd Cynghorau Tref a Chymuned ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, am gyfnod o ddwy flynedd, hyd at Ionawr 2027.

<u>Rhesymau dros benderfyniadau</u>

(1) Sicrhau bod cynrychiolaeth yn adlewyrchu cyfansoddiadau amrywiol Cynghorau Tref a Chymuned yn ardal Bro Morgannwg, gan arwain at enwebiadau'n cael eu ceisio gan Gynghorau Tref yn unig ar gyfer y cyfnod Ionawr 2027 i Ionawr 2029 ac yna Cynghorau Cymuned yn unig am y cyfnod Ionawr 2029. hyd at Ionawr 2031.

(2) Rhoi cyfle i bob Cyngor Tref a Chymuned drosglwyddo sylwadau i'r Cynrychiolydd cyn cyfarfodydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

(3) Sicrhau bod y Pwyllgor yn cael gwybod am fewnbwn a chynrychiolaeth Cynghorau Tref a Chymuned yng nghyfarfodydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

(4) Galluogi cynrychiolydd o Gynghorau Tref a Chymuned i gael ei benodi i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i sicrhau ymgysylltu effeithiol â Chynghorau Tref a Chymuned a chadw at Ganllawiau Statudol ar gyfer Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.